# TELERAU AC AMODAU CYFFREDINOL CYNLLUNIAU GRANT A RHODDION CYNGOR DINAS BANGOR

## 1. Diffiniadau

Ar gyfer dibenion y Cytundeb Grant hwn (fel y'i diffinnir isod) mae'r ymadroddion canlynol yn golygu:

- **"Cais"** yn golygu'r cais a gyflwynir gan neu ar ran y Sefydliad am grant mewn perthynas â Phrosiect a bydd yn cynnwys yr holl sylwadau ysgrifenedig a llafar a wnaed gan y Sefydliad i Gyngor Dinas Bangor ynghylch Prosiect o'r fath a'r cyfleusterau.
- **"Grant"** yn golygu'r swm y cyfeirir ato yn y Llythyr Cynnig Grant a ddyfarnwyd i gynorthwyo i ariannu'r Prosiect.
- **"Cytundeb Grant"** yw'r cytundeb a wnaed rhwng y Sefydliad a Chyngor Dinas Bangor ar ffurf y Llythyr Cynnig Grant, sy'n ymgorffori'r telerau a'r amodau hyn.
- **"Llythyr Cynnig Grant"** yw'r llythyr cynnig grant a anfonwyd i'r Sefydliad yn cadarnhau'r Grant ac yn amgáu'r telerau a'r amodau hyn.
- **"Sefydliad"** yn golygu'r sefydliad neu'r sefydliadau y rhoddir y Grant iddynt.
- **"Prosiect"** yn golygu'r prosiect neu'r prosiectau a ddisgrifir yn y Llythyr Cynnig Grant.
- **"CDB"** neu **"y Cyngor"** yn golygu Cyngor Dinas Bangor, y mae ei swyddfa yn Ffordd Gwynedd, Bangor, Gwynedd, LL57 1DT . Bydd cyfeiriadau at CDB yn cynnwys y Cyngor fel corff corfforaethol, ei staff ac unrhyw berson arall sy'n ei gynrychioli.

## 2. Derbyn

a) Ni ddaw unrhyw gytundeb i fodolaeth rhwng CDB a'r Sefydliad, ac felly nid yw CDB yn rhwym i dalu'r Grant, oni bai a hyd nes y bydd y cais wedi'i asesu

gan y Cyngor a bod y Sefydliad wedi cael gwybod yn ysgrifenedig am ddyfarniad grant llawn neu rannol CDB. Rhaid i unrhyw ofynion penodol a nodir yn yr ohebiaeth am y dyfarniad gael eu diwallu i foddhad CDB.

## 3. Gofynion penodol

a) Cyn cael dyfarniad o'r Grant hwn, mae'n rhaid i'r Sefydliad fodloni, er boddhad CDB, y gofynion a nodir yn yr ohebiaeth grant a'r telerau a'r amodau hyn.

b) Ni chaniateir i unrhyw sefydliad nad yw yn un o'r canlynol geisio cyllid gan Gynlluniau Arian Grant a Rhoddion Cyngor Dinas Bangor:

- Grwpiau cymunedol sydd â chyfansoddiad
- Elusennau a gyfansoddwyd heb eu cofrestru
- Elusennau cofrestredig
- Sefydliadau Corfforedig Elusennol
- Cwmnïau Cydweithredol
- Cymdeithasau Cyfeillgar
- Cymdeithasau Diwydiannol a Darbodus
- Cwmnïau Buddiant Cymunedol cyfyngedig drwy warant gydag aelodaeth fawr
- Cwmnïau cyfyngedig drwy warant gydag aelodaeth fawr
- Unigolion sy'n gwneud cais am Arian Cyfatebol, Cronfa Ieuenctid a chynlluniau *Go Volunteering* yn unig

c) Ni all Cyngor Dinas Bangor dderbyn ceisiadau gan:

- Unigolion (ac eithrio mewn achosion eithriadol at ddibenion penodol iawn)
- Unig Fasnachwyr
- Unrhyw fath o sefydliadau a/neu gwmnïau sy'n gwneud elw (y Sector Preifat)
- Sefydliadau statudol (y sector cyhoeddus)
- Sefydliadau mae'r Cyngor yn credu eu bod mewn iechyd ariannol gwael
- Sefydliadau mae'r Cyngor yn credu fod ganddynt strwythurau llywodraethu gwael
- Sefydliadau nad ydynt yn cynnal Cyfarfodydd Cyffredinol Blynyddol lle na all yr aelodaeth fynychu a phleidleisio ar drafodion
- Sefydliadau heb atebolrwydd i aelodaeth ehangach

## 4. Monitro

a) Gall y Prosiect gael ei fonitro’n agos am gyfnod o hyd at 2 flynedd o roi gwybod am y Dyfarniad, er mwyn sicrhau bod y nodau a’r amcanion a nodir yn y Cais yn cael eu bodloni a bod yr ymgeisydd yn glynu at y Cytundeb Grant. Gall y Cyngor hefyd fonitro’r Prosiect er mwyn adnabod arfer gorau a deall problemau allweddol.

b) Os gofynnir amdano, rhaid i'r Sefydliad gynnal rhaglen hunan-fonitro ar ffurflenni gwerthuso a ddarperir gan CDB. Ar gais y Cyngor, bydd y Sefydliad yn cwblhau holiadur ac yn cyflenwi unrhyw wybodaeth bellach y gall CDB ofyn amdani yn rhesymol.

c) Bydd gofyn i dderbynwyr grantiau uwchlaw £5,000, ar ôl cwblhau'r prosiect, gyflwyno adroddiad i'r Cyngor o fewn 60 diwrnod yn manylu ar ganlyniad y prosiect ac yn cynnwys crynodeb ariannol o holl incwm a chostau'r prosiect.

d) Er mwyn cydymffurfio â gofynion monitro CDB, dylai'r Sefydliad fod yn barod i dderbyn ymweliadau safle ac i roi eu cydweithrediad llawn i unrhyw swyddog monitro a benodir gan CDB, yn ystod y Prosiect ac ar ôl cwblhau'r Prosiect. Bydd gofyniad monitro o'r fath yn ôl disgresiwn CDB.

e) Ni fydd y darpariaethau yng nghymal 4 a) a 4 b) yn berthnasol i Grantiau o dan £2,000.

## 5. Telerau ac Amodau Pellach

a) Mae talu’r Grant yn amodol ar i’r Sefydliad gydymffurfio â phob un o'r amodau canlynol :-

i. Dim ond i ariannu'r darpariaeth y Prosiect fel y'i nodir yn y Cais a gymeradwywyd ac yn unol â thelerau'r Cytundeb Grant hwn y gellir defnyddio’r Grant. Ni chaniateir defnyddio'r Grant at unrhyw ddiben arall o dan unrhyw amgylchiadau;

ii. ni all y Grant gael ei ddefnyddio i ariannu costau ôl-weithredol a chostau i’r Sefydliad na’r Prosiect

iii. rhaid i'r Sefydliad gydymffurfio â'r holl ofynion statudol a chyfreithiau a rheoliadau eraill sy'n ymwneud â'r Prosiect, gan gynnwys, heb gyfyngiad, yr holl ddeddfau a rheoliadau iechyd, diogelwch a chyflogaeth perthnasol a deddfau a rheoliadau sy'n ymwneud â'r naw

nodwedd warchodedig fel y'u nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010;

iv. dylai'r Sefydliad ddarparu dyfynbrisiau ffurfiol, llawn a chywir neu amcangyfrifon gorau ar gyfer pob eitem o wariant ar adeg cyflwyno'r Cais am Grant;

v. rhaid i'r Sefydliad gadw cyfrifon a chofnodion llawn a phriodol i'r Prosiect. Bydd unrhyw gynrychiolydd a awdurdodwyd gan y Cyngor yn cael mynediad, pa bryd bynnag mae'r Cyngor yn gofyn hynny, i gyfrifon a chofnodion o'r fath;

vi. rhaid i recriwtio a dewis pob swydd a ariennir gan y Grant ddilyn canllawiau cyfle cyfartal. Rhaid anfon copïau o hysbysebion a'r broses recriwtio i CDB;

vii. ni ddylid gwahardd mynediad i unrhyw un gael defnydd o'r Prosiect ar sail hil, cred, lliw, rhyw, galwedigaeth, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd neu gred wleidyddol;

viii. ni chaiff y Sefydliad godi ffioedd neu danysgrifiadau am ddefnyddio'r Cyfleusterau neu gymryd rhan yn y Prosiect sydd o ganlyniad i lefel y ffioedd hyn yn atal neu'n cyfyngu'n ormodol ar gyfranogiad y cyhoedd.

## 6. Cymryd yn ôl neu ad-dalu'r Grant

a) Heb ragfarn i hawliau a rhwymedïau eraill CDB mewn perthynas â gwariant y Grant fel y'i cymeradwywyd a'i gadarnhau yn yr ohebiaeth ddyfarnu, am y cyfnod o ddwy (2) flynedd o ddyddiad y dyfarniad, bydd swm llawn y Grant a ryddhawyd i'r Sefydliad, neu swm lai ag y gall CDB ofyn amdani, yn ad-daladwy i CDB ar alw, a bydd unrhyw daliadau Grant yn y dyfodol yn cael eu hatal ac yn dod i ben neu yn cael eu talu yn amodol ar amodau penodol pellach ag y gall CDB eu pennu, pan:

i. mae'r Sefydliad yn gorffen gweithredu am unrhyw rheswm, neu'n mynd yn fethdalwr, neu yn mynd i law'r derbynnydd neu'n cael ei ddiddymu, neu mynd i mewn i mewn unrhyw drefniant neu gyfansoddiad er budd ei gredydwyr; neu

ii. ym marn resymol CDB, mae'r Sefydliad yn methu defnyddio'r Grant, neu unrhyw ran ohono, ar gyfer y pwrpas y cafodd ei roi, neu'n methu â chwblhau neu yn ymddangos yn rhesymol debygol y bydd yn methu â chwblhau'r Prosiect yn unol â'r Cais;

iii. mae'r Sefydliad yn methu â chydymffurfio ag unrhyw un o delerau ac amodau'r Grant fel y'u gosodwyd allan yn y Cytundeb Grant;

iv. ym marn resymol CDB, roedd unrhyw un o'r gwarantau a roddwyd neu'r sylwadau oddi mewn i'r Cais neu unrhyw ddogfennau eraill a gyflwynwyd gan y Sefydliad i CDB yn dwyllodrus, yn sylweddol anghywir neu'n gamarweiniol;

7. **Talu'r Grant**

a) Bydd y Grant yn cael ei dalu yn unol â'r amserlen dalu a nodir yn yr ohebiaeth ynghylch y Dyfarniad neu fel y cytunwyd yn benodol fel arall wrth gyflwyno ffurflen hawlio wedi'i chwblhau. Dylai'r Sefydliad gydnabod mai dim ond i'r graddau y mae gan CDB gronfeydd ar gael y gellir sicrhau'r Grant.

b) Rhaid i'r Sefydliad ofyn am y taliad cyntaf o'r Grant, a dechrau'r Prosiect, o fewn chwe (6) mis i ddyddiad yr ohebiaeth ynghylch y dyfarniad, oni y cytunwyd fel arall yn ysgrifenedig. Os na ellir cwrdd â'r dyddiad hwn, rhaid i'r Sefydliad anfon esboniad ysgrifenedig at CDB ar unwaith am yr oedi wrth ofyn am daliad/dechrau'r Prosiect. Os na ofynnir am y taliad cyntaf o'r Grant gan y Sefydliad o fewn y cyfnod perthnasol, bydd y Grant yn dod i ben yn awtomatig heb i CDB roi unrhyw rybudd ychwanegol neu ffurf arall o hysbysiad i'r Sefydliad. Wedi hynny, ni fydd CDB yn atebol am wneud unrhyw daliadau Grant yn y dyfodol a bydd y Cytundeb Grant yn dod i ben ar unwaith.

c) Dim ond i gyfrif banc busnes cyffredin yn enw'r Sefydliad wedi'i hysbysu i CDB y telir y Grant. Gwneir taliadau naill ai drwy Drosglwyddiad Banc, System Glirio Awtomataidd y Banciau (BACS) yn uniongyrchol i'r cyfrif banc, neu drwy siec.

d) Mae CDB yn arfer yr hawl i dalu'r Grant dim ond wedi gweld dyfynbrisiau cyfredol a dilys mewn amgylchiadau eraill y gall CDB gytuno arnynt. Mae gan CDB yr hawl i alw am brawf o daliad.

e) Ni thelir unrhyw Grant nes bod CDB yn fodlon (gan weithredu'n rhesymol) bod y cyfryw daliad yn cael ei wneud mewn perthynas â gwariant priodol i'r Prosiect.

f) Rhaid i'r Sefydliad ad-dalu CDB ar unwaith unrhyw Grant a dalwyd iddo yn anghywir o ganlyniad i unrhyw wall gweinyddol.

g) Os ar unrhyw adeg bydd cyfanswm y gwariant i'r Prosiect yn fwy nag amcangyfrif y swm a ddatganwyd yn y cais Grant neu ohebiaeth am ddyfarniad, pa un bynnag yw'r lleiaf, ni fydd cynnydd cyfatebol yn y Grant. Gall CDB yn ôl ei ddisgresiwn llwyr ystyried cynyddu swm y Grant mewn ymateb i gais wedi'i gyflwyno ymlaen llaw yn ein hysbysu am y gost ddiwygiedig, y rhesymau am y cynnydd, a gofyn i lefel y Grant gael ei ailystyried.

h) Mae CDB hefyd yn cadw'r hawl, os yw cyfanswm terfynol y gwariant a ganiateir yn llai na'r amcangyfrif, i adolygu swm y Grant ac, lle bo'n briodol, i leihau'r Grant sy'n daladwy neu i ofyn am ad-daliad o ran o'r Grant. Bydd swm y gostyngiad neu'r ad-daliad yn cael ei benderfynu gan CDB yn ôl ei ddisgresiwn ond ni fydd yn fwy na swm y tanwariant.

i) Yn yr un modd, os yw cyfanswm y cyllid a gafwyd ar gyfer y Prosiect, yn enwedig o ffynonellau cymorth grant cyhoeddus, yn fwy na'i gost, disgwylir ac mae'n ofynnol i'r Sefydliad hysbysu CDB fel bod lefel y Grant yn gallu cael ei adolygu yn y pen draw ar ddisgresiwn CDB.

## 8. Aseiniad

a) Caniateir i CDB, ar ôl rhoi rhybudd ysgrifenedig ymlaen llaw i'r Sefydliad, aseinio neu drosglwyddo fel arall fudd a baich y Cytundeb Grant hwn i unrhyw gorff olynydd i CDB.

b) Ni all y Sefydliad aseinio na throsglwyddo fel arall y budd na'r baich o'r Cytundeb Grant hwn heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan CDB.

## 9. Eithrio Atebolrwydd/Indemniad

a) Ni fydd CDB, ei weithwyr, asiantau, swyddogion neu is-gontractwyr ar unrhyw adeg yn atebol i unrhyw berson am unrhyw beth mewn cysylltiad â datblygu, cynllunio, adeiladu, gweithredu, rheoli a/neu weinyddu'r Prosiect. Yn benodol ond heb gyfyngiad, ni fydd yn atebol i'r Ymgeisydd am unrhyw golled neu ddifrod yn codi yn uniongyrchol neu yn anuniongyrchol o ganlyniad i gydymffurfiaeth gan yr Ymgeisydd â thelerau ac amodau'r Grant hwn.

b) Bydd yr Ymgeisydd yn indemnio ac yn dal CDB, ei weithwyr, asiantau, swyddogion neu isgontractwyr yn ddiniwed o safbwynt pob hawliad gan, ac atebolrwydd i, drydydd partïon am anaf, marwolaeth, colled neu ddifrod o unrhyw fath yn deillio o'r Prosiect neu mewn cysylltiad ag ef ac unrhyw weithgareddau a wnaed drwyddo ac eithrio ble mae'r anaf, marwolaeth, colled neu ddifrod wedi deillio o weithredu esgeulus neu anwaith gan CDB. Yn yr achos olaf yma, rhaid i'r Ymgeisydd roi rhybudd prydlon i CDB am unrhyw hawliad o'r fath, a bydd gan CDB hawl cyfan gwbl i reoli amddiffyn y cyfryw hawliad.

c) Nid oes gan CDB unrhyw atebolrwydd ar gyfer colledion neu gostau yn codi o fethu â gwneud unrhyw daliad ar unrhyw ddyddiad y cytunwyd arno.

## 10. Y Gyfraith ac Awdurdodaeth

a) Bydd dehongliad, dilysrwydd a pherfformiad y Cytundeb Grant yn cael ei lywodraethu ym mhob agwedd gan gyfraith Cymru a Lloegr a bydd yn ddarostyngedig i awdurdodaeth anghyfyngedig Llysoedd Cymru a Lloegr. Mae'r partïon yn ymrwymo i'w gilydd i wneud eu gorau glas lle bynnag y bo modd i ddatrys unrhyw anghydfod a all godi o dan y Cytundeb Grant yn gyfeillgar.

## 11. Hawliau Trydydd Partïon

a) Nid oes gan berson nad yw'n rhan o'r Cytundeb Grant hwn unrhyw hawl o dan Ddeddf Contractau (Hawliau Trydydd Partïon) 1999 i orfodi unrhyw un o delerau y Cytundeb Grant hwn.

## 12. Datganiad Preifatrwydd a Diogelu Data

Eich hawliau i breifatrwydd

a) Ar 25 Mai 2018, daeth deddf newydd i rym yn y DU sy'n diweddaru eich hawliau i breifatrwydd ac yn newid y rheolau ynghylch sut y gallwn ddefnyddio eich gwybodaeth bersonol. Mae Cyngor Dinas Bangor yn gwerthfawrogi ei berthynas â chi ac felly'n cymryd eich hawliau i breifatrwydd o ddifrif. Felly rydym wedi diweddaru ein datganiad preifatrwydd i esbonio pa wybodaeth bersonol rydym yn ei chasglu amdanoch chi, sut rydym ei defnyddio a gofalu amdani, a'ch hawliau. Rydym am rannu hyn gyda chi fel eich bod chi'n glir ynglŷn â'n rhwymedigaethau a'ch hawliau, a rhag ofn bod gennych unrhyw gwestiynau i ni. Gellir dod o hyd i'n datganiad preifatrwydd ar ein gwefan. Mae'r datganiad preifatrwydd yn cynnwys gwybodaeth bwysig am eich hawliau i breifatrwydd, felly rydym yn eich annog i gymryd yr amser i'w ddarllen.